**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1054
Ein cyf/Our ref KS/06294/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

06 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch y sector gwallt a harddwch.

Rydym yn cydnabod ymdrechion enfawr busnesau wrth iddynt sicrhau bod eu lleoliadau yn ddiogel, ac yn arbennig fusnesau o fewn y sector gwallt a harddwch. Nid yw'r cyfnod atal byr yn tanseilio'r ymdrechion hynny ac rydym yn cydnabod mai isel neu ganolig yw cyfraniad rhai lleoliadau busnes o ran trosglwyddo'r feirws.

Mae lleihau unrhyw beth sy'n cyfrannu at ledaenu'r feirws yn hollbwysig ar hyn o bryd, fodd bynnag, a dyma pam rydym wedi'i gwneud hi'n ofynnol i rai busnesau gau dros dro. Rydym yn llwyr ymwybodol o effaith y cyfnod atal byr ar fusnesau ac rydym yn darparu £300 miliwn yn ychwanegol er mwyn eu cynorthwyo yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Bydd pob busnes sydd wedi bod ar gau ers 23 Hydref yn gallu ailagor ar 9 Tachwedd.

Byddwch yn deall bod yr ymateb i'r argyfwng yn newid yn gyflym ac rydym yn derbyn cyngor rheolaidd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn anffodus ni allwn roi unrhyw sicrwydd o safbwynt mesurau eraill posibl.

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.